Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Lloegr) 2013
Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Yr Alban) 2013
Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014
Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 a ddargedwir sy'n gosod rheolau iechyd ynglŷn â sgil-gynhyrchion anifeiliaid na fwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl

Ffurflen Gais ac Arolygiad am Gymeradwyaeth i Drin Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a/neu Wastraff Arlwyo mewn Cyfarpar Compostio neu Fionwy

Cyfeiriad APHA:

ABP Team, APHA Customer Service Centre, Oak House, Bridgwater Road, Worcester, WR4 9FQ

Dyddiad Derbyn:

Rhif Cyfeirnod:

Dyddiad yr Arolygiad:

Pwysig – cyfarwyddiadau i geiswyr. Mae'r adrannau o'r ffurflen gais hon yn dilyn y drefn gyffredinol a esbonnir isod.

- **Gofynion cyfreithiol.**Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r gofynion sylfaenol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir cymeradwyo cais. Dylai ceiswyr sicrhau bod mangreoedd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn cyn anfon eu cais i'w gymeradwyo.
- **Canllawiau.** Mae'r nodiadau hyn ond yn rhoi crynodeb ac ni ddylid ystyried eu bod yn gynhwysfawr.
- **Manylion.** Gwybodaeth sydd i'w darparu gan y ceisydd. Os nad oes digon o le ar y ffurflen hon, parhewch ar y tudalennau gwag a atodir, gan ddyfynnu rhif yr adran berthnasol.
- **Cynllun Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP).**Rhaid i weithredwyr roi gweithdrefn barhaol ar waith yn unol ag egwyddorion HACCP i nodi a rheoli pwyntiau rheoli critigol; monitro, gwirio a chofnodi pwyntiau rheoli critigol.
- **Canllawiau Ar-lein.** Cyfeiriwch at https://www.gov.uk/government/publications/using-animal-by-products-in-compost-or-biogas-approval-application cyn cwblhau'r ffurflen hon.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon, anfonwch y copi llofnodedig at y Tîm Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (mae'r cyfeiriad ar frig y dudalen) neu mewn e-bost i:
CSCOneHealthABP@apha.gov.uk

Enw'r ceisydd:

Enw'r gweithredwr neu'r cwmni os yw'n wahanol:

Cyfeiriad post llawn y fangre:

Cod post:

Rhif ffôn (yn cynnwys y cod deialu Cenedlaethol):

Rhif ffacs. (yn cynnwys y cod deialu Cenedlaethol):

Cyfeiriad e-bost:

Rhif y daliad (os yw'n gymwys):

Canllawiau ar Ffioedd Ar-lein

Bydd angen talu ffioedd gwneud cais a ffioedd arolygu parhaus. Gweler y ddeddfwriaeth berthnasol isod:

- **Lloegr** - Rheoliadau Ffioedd Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Lloegr) 2018
- **Yr Alban** - Rheoliadau Ffioedd Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Yr Alban) 2018
- **Cymru** - Rheoliadau Ffioedd Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Cymru) 2018

Enw'r cwsmer (cwmni):

Noder:

- rhaid i'r manylion ym maes enw'r cwsmer uchod gael eu nodi **yn union** fel y byddant yn

ymddangos ar anfonebau

- rhaid sicrhau mai enw'r cwsmer yw'r **enw masnachu cyfreithiol llawn**
- **peidiwch** â defnyddio blaenlythrennau na byrfoddau

A ydych yn cynrychioli adran o'r llywodraeth neu sefydliad cyhoeddus? (Ydw/ Nac ydw)

Cyfeiriad Bilio ar gyfer y cwmni (os yw'n wahanol i'r Cyfeiriad Gohebu uchod):

Cod post:

Gwlad:

Rhif cofrestru TAW:

Manylion cyswllt ar gyfer anfonebau/bilio

Cyfeiriad e-bost cyswllt (ar gyfer pob anfoneb yn ymwneud â'r safle uchod):

Enw llawn yr unigolyn cyswllt:

Rhif ffôn:

1. Deunydd Ffynhonnell

Canllawiau. Mae ‘Safonau Trin Cenedlaethol’ y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) yn gymwys i wastraff arlwyo yn unig.

Mae Rheoliadau Rheolaeth a Gweithredu'r UE yn gymwys i sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 2 a 3.

Gellir compostio sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 3 neu eu treulio'n anaerobig heb brosesu blaenorol.

Gall tail Categori 2, cynnwys y llwybr treulio, llaeth, cynhyrchion llaeth a llaeth tor, wyau a chynhyrchion wyau nad ydynt yn achosi risg o ledaenu unrhyw glefyd trosglwyddadwy difrifol ym marn yr awdurdod cymwys gael eu defnyddio fel deunydd crai mewn safleoedd bionwy a chompostio heb brosesu blaenorol, a hefyd ddeunydd Categori 2 sy'n dod o anifeiliaid dyfrol.

Mae pob math arall o ddeunydd Categori 2 yn achosi mwy o risg i iechyd pobl neu iechyd anifeiliaid a rhaid iddo gael ei brosesu'n gyntaf mewn safle prosesu cymeradwy sy'n defnyddio dull prosesau 1 (133°C, pwysedd 3 bar, am 20 munud).

Nid oes angen i safleoedd sy'n ymdrin â gwastraff gardd (gwyrdd) yn unig gael cymeradwyaeth gan APHA (ond rhaid i safleoedd o'r fath gymryd camau i sicrhau nad yw cig na sgil-gynhyrchion anifeiliaid wedi'u cynnwys yn y deunydd y maent yn ei gasglu).

Ystyr 'Gwastraff Arlwyo' yw'r holl fwyd gwastraff sy'n dod o fwytai, cyfleusterau arlwyo a cheginau, gan gynnwys ceginau canolog a cheginau cartrefi. Dim ond y deunydd hwn y gellir ei drawsnewid yn unol â'r Safonau Cenedlaethol.

Mae sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 3 fel arfer yn ddeunydd sydd wedi cael ei ddosbarthu'n addas i bobl ei fwyta, ond na fwriedir iddo gael ei fwyta gan bobl mwyach, ac mae'n cynnwys gwastraff o'r diwydiant prosesu bwyd a gwastraff bwyd manwerthu (hen fwyd na fwriedir iddo gael ei fwyta gan bobl mwyach).

1. **Deunydd Ffynhonnell *(parhad)***

Manylion. Pa fath o ddeunydd rydych yn bwriadu ei gasglu, a nodwch faint yn fras a'r ffynonellau arferol os oes modd.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

2. Gwastraff Arlwyo nad yw'n cynnwys Cig

Canllawiau. Gall safleoedd sy'n ymdrin â gwastraff arlwyo nad yw'n cynnwys cig yn unig ddilyn un cam compostio ac yna'i storio. Rhaid i bob system gwastraff arlwyo arall ddilyn dau gam compostio.

Gwastraff arlwyo lle mae'r ffracsiwn cig wedi cael ei wahanu yn y tarddle, e.e. drwy gael ei roi mewn bin gwahanol a'i gasglu ar wahân yw gwastraff nad yw'n cynnwys cig.

Nid yw gwastraff lle mae'r ffracsiynau cig a'r ffracsiynau heb gig wedi cael eu casglu gyda'i gilydd ac yna'u didoli'n ddiweddarach yn wastraff arlwyo nad yw'n cynnwys cig.

Manylion. A ydych yn bwriadu trin gwastraff arlwyo nad yw'n cynnwys cig yn unig? (Ydw/Nac ydw)

Os atebwyd YDW, disgrifiwch isod y mesurau rheolaeth y byddwch yn eu rhoi ar waith i beidio â chynnwys cig yn y tarddle, a'r gwiriadau rydych yn bwriadu eu cynnal.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

3. Paramedrau Prosesu

Manylion. A ydych yn bwriadu trin gwastraff arlwyo yn unig? (Ydw/Nac ydw)

A ydych yn bwriadu trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid? (Ydw/Nac ydw)

Disgrifiwch y categori o ddeunydd rydych yn bwriadu ei gasglu a'r dulliau prosesu a gaiff eu defnyddio.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

4. Da Byw

Canllawiau. Ni ddylai fod unrhyw dda byw yn y fangre. Mae da byw yn cynnwys anifeiliaid cnoi cil, moch neu ddofednod, neu anifeiliaid a ffermir. Rhaid sicrhau nad yw sgil-gynhyrchion anifeiliaid o fewn cyrraedd da byw. Y ffordd orau o wneud hyn yw drwy beidio â chael da byw yn y fangre drin o gwbl.

Manylion. Darparwch gynllun, nad oes angen iddo fod ar raddfa, sy'n dangos trefn y fangre, llif cynnyrch, draenio a manylion mangreoedd cyfagos.

At ddefnydd swyddogol yn unig

Gofynion o dan y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid

5. Trefn y Safle

Canllawiau. Bydd yr ardal lân yn cael ei gwahanu'n ddigonol oddi wrth yr ardal dderbyn a'r ardal lle mae cerbydau a chynwysyddion yn cael eu glanhau a'u diheintio er mwyn atal y deunydd sy'n cael ei drin rhag cael ei halogi. Bydd lloriau yn cael eu gosod fel na fydd modd i hylif dreiddio i mewn i'r ardal lân o'r ardaloedd eraill.

Rhaid i'r ardal dderbyn ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid (gan gynnwys gwastraff arlwyo) fod yn adeilad cwbl gaeedig, y gellir ei gloi, sydd wedi cael ei adeiladu mewn ffordd sy'n golygu ei fod yn hawdd i'w lanhau a'i ddiheintio. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r waliau fod wedi'u cladio mewn deunydd anhydraidd, wedi'u rendro neu wedi'u gwneud o frics neu flociau sydd mewn cyflwr da. Rhaid bod y lloriau wedi'u gosod mewn ffordd sy'n hwyluso'r broses o ddraenio hylifau. Mae'n bosibl

y bydd systemau caeedig eraill yn dderbyniol os ydynt yn gwbl sownd ac yn atal fermin/adar rhag dod i mewn (e.e. pwll â chaead y gellir ei gloi).

Rhaid bod gan yr ardal glanhau cerbydau/cynwysyddion gyflenwad dŵr a chyfarpar priodol ar gyfer glanhau a diheintio.

Dim ond deunydd sydd wedi mynd drwy'r driniaeth ofynnol lawn a all fynd i'r mewn i'r ardal lân. Rhaid bod yr ardal lân wedi'i gwahanu'n ffisegol ac yn weithredol oddi wrth yr ardaloedd eraill, gan waliau o bosibl, fel na all deunydd wedi'i drin gael ei halogi gan ddeunydd heb ei drin. Dylai fod llif unffordd o ddeunydd drwy'r safle o'r ardal dderbyn i'r ardal lân.

Manylion. Gwnewch yn siŵr fod yr ardal dderbyn, yr ardal glanhau a diheintio, a'r ardal lân wedi'u nodi ar gynllun y safle sy'n ofynnol o dan adran 4. Disgrifiwch yr ardal dderbyn, gan roi manylion adeiladu a draenio. Disgrifiwch sut mae'r ardal glanhau cerbydau/cynwysyddion wedi cael ei hadeiladu a'i draenio. Disgrifiwch yr ardal lân. Disgrifiwch sut mae'r ardaloedd wedi'u gwahanu oddi wrth ei gilydd yn ffisegol.

5. Trefn y Safle (*parhad*)

At ddefnydd swyddogol yn unig:

6. Deunydd Heb ei Brosesu

Bydd y sgil-gynnyrch anifeiliaid yn cael ei ddadlwytho yn yr ardal dderbyn a naill ai:

(a) ei drin ar unwaith, neu

(b) ei storio yn yr ardal dderbyn a'i drin mor fuan â phosibl ar ôl iddo gyrraedd.

Mae sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cynnwys gwastraff arlwyo. Os yw'r ardal dderbyn gyfan yn gwbl gaeedig ac yn atal fermin/adar rhag dod i mewn, mae ‘mor fuan â phosibl’ yn golygu mor fuan ag sy'n ymarferol resymol ac fel arfer o fewn 24 awr. Os nad yw'r ardal dderbyn gyfan yn gwbl gaeedig, mae ‘mor fuan â phosibl’ yn golygu ar unwaith.

Manylion. A fydd y deunydd yn cael ei drin ar unwaith, neu ei storio dros dro yn yr ardal dderbyn, ac os felly, am faint o amser?

At ddefnydd swyddogol yn unig:

7. Mesurau i Atal Halogi (1)

Canllawiau. Dylai'r safle gael ei adeiladu a'i weithredu fel na fydd deunydd sydd wedi'i drin yn llawn neu'n rhannol yn gallu cael ei halogi gan ddeunydd nad yw wedi'i drin i'r un graddau, neu gan hylif ohono, neu gan bersonél neu gyfarpar sydd wedi dod i gysylltiad ag ef.

Rhaid i ddraeniau gael eu hadeiladu fel nad oes modd i hylif halogi deunydd.

Rhaid i ddeunydd sydd wedi'i drin yn llawn neu'n rhannol gael ei wahanu'n ffisegol oddi wrth y deunydd nad yw wedi cael ei drin i'r un graddau.

Rhaid i'r ardal lân gynnwys deunydd wedi'i drin yn llawn yn unig (mae'r deunydd hwn wedi mynd drwy bob cam trin sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau).

Rhaid i ddeunydd sy'n mynd yn ôl drwy'r ardal dderbyn gael ei ailbrosesu'n llawn, neu ei waredu drwy lwybr gwaredu arall a ganiateir.

Manylion. Pa systemau/mesurau a fydd ar waith i atal y deunydd wedi'i drin rhag cael ei ailhalogi, neu fynd heibio?

At ddefnydd swyddogol yn unig:

8. Mesurau i Atal Halogi (2)

Canllawiau. Rhaid bod cyfleusterau i olchi olwynion, ond nid oes angen i'r rhain fod yn soffistigedig.

O ran cerbydau sydd ond yn cludo gwastraff arlwyo ac yna'n gadael y safle, dim ond y tu allan i'r cerbyd a'r olwynion y bydd angen eu golchi.

Rhaid i gerbydau sy'n cludo deunydd heb ei drin, ac sy'n bwriadu cludo deunydd wedi'i drin i'r safle a cherbydau sy'n cludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid heblaw gwastraff arlwyo, gael eu glanhau a'u diheintio'n fewnol yn drylwyr, neu eu glanhau ag ager, yn ogystal â golchi'r olwynion.

Dylai unrhyw ddiheintyddion a ddefnyddir fod yn rhai a gymeradwywyd o dan y Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion Cymeradwy).

Manylion. Disgrifiwch y cyfleusterau a ddarparwyd. Gwnewch yn siŵr fod lleoliad y cyfleusterau wedi'i nodi ar gynllun y safle.

Pa ddiheintydd a gaiff ei ddefnyddio?

At ddefnydd swyddogol yn unig:

Gofynion o dan Atodiad V i Reoliad yr UE

9. Mesurau yn erbyn Fermin ac ati.

Canllawiau. Ni chaniateir i anifeiliaid na phersonau heb awdurdod fynd i'r mewn i'r fangre. Rhaid rhoi mesurau ataliol ar waith yn systematig yn erbyn adar, cnofilod, trychfilod a mathau eraill o fermin.

Rhaid bod y safle yn gwbl gaeedig, e.e. drwy ffens, ac wedi'i gloi pan nad oes neb yno.

Gall mesurau ataliol gynnwys contract â chwmni rheoli plâu. Dylai mesurau fod yn barhaus neu'n rheolaidd. Rhaid i gofnodion o fesurau rheoli fod ar gael i'w harchwilio.

Manylion. Disgrifiwch y mesurau sydd ar waith.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

10. Glanhau

Canllawiau. Rhaid i weithdrefnau glanhau gael eu dogfennu a'u cadarnhau ar gyfer pob rhan o'r fangre. Rhaid darparu cyfarpar a nwyddau glanhau addas ar gyfer y gwaith glanhau.

Rhad i fesurau glanhau fod yn effeithiol ac yn drylwyr. Dylid ymdrin â'r union fanylion yn y cynllun HACCP.

Manylion. Disgrifiwch y gweithdrefnau glanhau sydd i'w defnyddio.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

11. Hylendid

Canllawiau. Dylid cynnal archwiliadau gweledol bob dydd a chymryd camau cywirol ar unwaith. Dylid cynnal archwiliadau mwy ffurfiol o leiaf unwaith yr wythnos. Dylid edrych ar y pwyntiau rheoli critigol. Rhaid bod tystiolaeth ddogfennol bod hyn wedi cael ei wneud.

Manylion. Disgrifiwch y gwiriadau sydd i'w cynnal, a rhowch enw neu deitl swydd yr unigolyn a fydd yn gyfrifol am gynnal y gwiriadau hyn.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

12. Cyfarpar

Canllawiau. Byddem yn disgwyl i'r dyfeisiau mesur tymheredd fod wedi'u graddnodi o leiaf unwaith y flwyddyn gan berson annibynnol â chymwysterau addas. Dylai 'dyfeisiau hunanraddnodi' fod o fewn cyfnod eu gwarant, neu dylent gael eu hailbrofi gan berson â chymwysterau addas.

Manylion. Disgrifiwch y cyfarpar a ddefnyddir.

Nodwch sut a phryd y bydd y gwaith graddnodi yn digwydd.

Beth yw'r cynllun wrth gefn os bydd cyfarpar yn methu?

At ddefnydd swyddogol yn unig:

13. Bionwy

Canllawiau. Rhaid bod safleoedd bionwy yn cynnwys uned basteureiddio/hylaneiddio na ellir mynd heibio iddi.

Gall yr uned hon fod ar wahân i'r prif danc biodreulio, neu y gellir ystyried mai'r tanc biodreulio yw'r uned basteureiddio ei hun. Gall y cam pasteureiddio ddigwydd cyn neu ar ôl y cam treulio.

Manylion. Dangoswch sut y bydd y cam pasteureiddio yn cael ei gyflawni. (Safleoedd Bionwy yn unig).
Os bwriedir pasteureiddio deunydd ar ôl treulio anaerobig, sut rydych yn bwriadu gwaredu'r hyn sy'n deillio o lanhau'r tanc treulio anaerobig ar adeg ei gynnal a'i gadw?

At ddefnydd swyddogol yn unig:

14. Compostio

Canllawiau. Rhaid i ddeunydd crai gael ei gompostio mewn adweithydd caeedig. Ni chaniateir compostio deunydd crai (cam cyntaf) drwy daenu agored.

Manylion. Disgrifiwch yn gryno y system gompostio a fydd yn cael ei gweithredu. (Safleoedd compostio yn unig).

At ddefnydd swyddogol yn unig:

15. Pasteureiddio/Hylaneiddio

Canllawiau. Rhaid i unedau pasteureiddio/hylaneiddio ac uned gompostio gynnwys:

(a) cyfarpar i fonitro tymheredd yn erbyn amser

(b) dyfeisiau cofnodi i gofnodi canlyniadau'r mesuriadau hyn yn barhaus

(c) system ddiogelwch ddigonol i atal gwresogi annigonol

Rhaid bod y gweithredwr yn gallu dangos bod yr **holl** ddeunydd yn y system wedi cyrraedd y safon ofynnol o ran tymheredd am yr amser gofynnol yn ddi-dor (nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r holl ddeunydd gyrraedd y safon ar yr un pryd, ond ni ddylai gael ei ailhalogi gan ddeunydd cyfagos o safon is).

Nid oes nifer gofynnol o chwiliedyddion tymheredd wedi'i bennu, ond mae angen i Filfeddyg APHA fodloni ei hun bod digon i nodi faint o'r system sydd uwchlaw'r tymheredd gofynnol. *Yn ystod yr ymarfer dilysu, dylai fod digon o chwiliedyddion ychwanegol neu fesuriadau eraill i ddangos bod y chwiliedyddion parhaol yn dangos tymereddau'r màs cyfan mewn gwirionedd.*

Manylion. Disgrifiwch y canlynol:

- Dyluniad yr adweithydd compost/cyfarpar bionwy.
- Nifer y chwiliedyddion tymheredd a'u lleoliad (nodwch pam rydych yn ystyried bod y chwiliedyddion hyn yn rhoi sicrwydd digonol ynglŷn â'r tymheredd a gyrhaeddir drwy fàs cyfan y deunydd).
- Os ydych yn gweithredu system ddi-dor, nodwch sut mae'r amser a ddelir ar y tymheredd isaf gofynnol yn cael ei gyfrifo, a sut mae'r tymheredd yn cael ei fonitro. Sut mae chwiliedyddion yn rhoi gwarant ddigonol bod y gofynion o ran amser/tymheredd wedi cael eu bodloni.
- Nodwch sut y bydd y porthiant deunydd yn cael ei fonitro/addasu er mwyn sicrhau bod y paramedrau gofynnol o ran amser/tymheredd yn cael eu bodloni. O ran taenu dan do, dylai hyn gynnwys cyfeiriad at weithdrefnau troi.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

Gofynion Ychwanegol

16. Gwiriadau'r Safle Ei Hun

Canllawiau. Rhaid i'r gweithredwr roi gweithdrefn barhaol ar waith yn unol ag egwyddorion HACCP i nodi a rheoli pwyntiau rheoli critigol, monitro, gwirio a chofnodi pwyntiau rheoli critigol, samplu pob swp a chofnodi'r canlyniadau, sefydlu system olrhain ar gyfer pob swp sy'n cael ei ddosbarthu.

Ceir rhagor o wybodaeth am HACCP yn y prif nodiadau canllaw, neu mew cyhoeddiadau eraill ar egwyddorion HACCP.

Manylion. Rhaid bod gan eich safle gynllun HACCP. Atodwch gopi i'r cais hwn *(ticiwch y blwch i gadarnhau bod copi wedi'i atodi).*

At ddefnydd swyddogol yn unig

A yw'r cynllun HACCP yn (Atebwch ‘ie’ neu ‘na’ i’r cwestiynau canlynol)

- nodi unrhyw beryglon y mae'n rhaid eu hatal, eu dileu neu eu lleihau:

- nodi'r pwyntiau rheoli critigol lle mae rheolaeth yn hanfodol ar y camau hynny:

- pennu terfynau critigol yn y pwyntiau rheoli critigol:

- pennu gweithdrefnau i fonitro'r pwyntiau rheoli critigol:

- pennu camau cywirol i'w cymryd os nad yw pwynt rheoli critigol o dan reolaeth:

- pennu gweithdrefnau i gadarnhau a yw'r gweithdrefnau uchod yn gweithio'n effeithiol:

- pennu dogfennau a chofnodion i ddangos bod y mesurau uchod yn cael eu cymhwyso'n effeithiol:

A yw'r cynllun HACCP a'r rhagofynion yn ymdrin â'r pwyntiau canlynol? (Atebwch ‘ie’ neu ‘na’ i’r cwestiynau canlynol)

- gwastraff arlwyo nad yw'n cynnwys cig (os yw'n briodol):

- gwahanu glân/brwnt (mynd heibio) (trefn) (llif cynnyrch)

- ardal dderbyn dan do – trafod deunydd heb ei drin:
- trafod, storio, gwaredu dŵr gwastraff/ trwytholch
- symud personél a chyfarpar (mynd heibio):
- glanhau a diheintio cerbydau (mynd heibio):
- atal a rheoli cnofilod/plâu:
- gweithdrefnau glanhau/rheolaethau hylendid:
- cyfarpar monitro/atgyweirio/graddnodi:
- monitro/cofnodi tymheredd (ac awyru os oes angen):
- samplu (swm/amlder):
- ailbrosesu (gweithredu os bydd methiant cynhyrchu, gan gynnwys gweithdrefnau adalw):

Rhestrwch y pwyntiau rheoli critigol y cytunwyd arnynt, y terfynau critigol a'r camau cywirol sy'n gysylltiedig â'r broses:

At ddefnydd swyddogol yn unig:

17. Monitro Cynhyrchion

Canllawiau. Dylai'r labordy a ddewiswyd fod wedi'i achredu i ISO17025 ar gyfer y cyfrwng sy'n cael ei brofi (h.y. compost neu weddillion treuliad anaerobig).

Rhaid i samplau o safleoedd sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu profi am *Salmonella* ac *E. coli*.

Rhaid cytuno ar y gweithdrefnau samplu â'r swyddog arolygu, a byddant yn rhan o'r gymeradwyaeth.

Manylion. Rhowch enw a chyfeiriad y labordy a fydd yn cael ei ddefnyddio i gynnal y profion gofynnol.

Cod Post:

I ddod o hyd i labordai cymeradwy, gweler http://www.ukas.com/search-accredited-organisations

At ddefnydd swyddogol yn unig:

18. Allforio

Manylion. A ydych yn bwriadu allforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid i'r UE? (Ydw/Nac ydw)

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad

Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth
Nodir sut rydym yn defnyddio eich data personol yn ein siarter gwybodaeth bersonol a'n hysbysiadau preifatrwydd:

- https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter
- https://www.gov.uk/government/publications/animal-and-plant-heath-agency-privacy-notices

Mae'r cais hwn yn ymwneud â'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) yn unig.Nid yw'n ymwneud â materion megis caniatâd cynllunio neu reolaeth amgylcheddol.Mae'n debygol y bydd angen awdurdodiadau eraill.

- **Noder:**Ar ôl adroddiad boddhaol gan yr arolygydd, bydd cymeradwyaeth dros dro yn cael ei rhoi, fel arfer am gyfnod o dri mis. Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i chi ddangos y gellir bodloni'r gofynion

o ran amser a thymheredd ar gyfer y system a weithredir, ac y gellir bodloni gofynion monitro microbiolegol y Rheoliad.

Y Ddeddf Diogelu Data
Bydd manylion enw a chyfeiriad y busnes a'r math o fusnes a'i rif cofrestru ar gael yn gyhoeddus, a hynny er mwyn galluogi'r rhai y mae sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn eu meddiant i nodi busnesau dilys a'n galluogi ni i gyflawni rhwymedigaethau'r UE i roi manylion mangreoedd cymeradwy a chofrestredig i'r Comisiwn Ewropeaidd ac Aelod-wladwriaethau eraill. Gall y manylion uchod hefyd gael eu defnyddio gan Defra, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru a'u rhannu gyda'i gilydd a gyda chyrff cyhoeddus at ddibenion y Rheoliadau Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid a materion cysylltiedig, ac i ymgynghori ar faterion sy'n berthnasol i'ch busnes. Mae'n bosibl y bydd yr holl fanylion ar y ffurflen gais hon yn cael eu darparu i'r awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill at ddibenion gorfodi a pholisi.

At ddefnydd swyddogol yn unig

Sylwadau'r Arolygydd:

Argymhelliad yr Arolygydd:

(Gwrthod/Angen gwaith pellach/Cymeradwyo (Arlwyo)/Cymeradwyo (Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid)

Enw'r Arolygydd:

Gradd:

Nodiadau i arolygwyr ar roi cymeradwyaeth

1. Yng Nghymru a Lloegr, gofynnwch i'r deiliad AB58 ei gydlofnodi. Mae'r Tîm Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, CSC One Health yn cadw rhestr o'r holl ddeiliaid AB58.

   Yn yr Alban, anfonwch yr argymhelliad at y Milfeddyg Arweiniol.
2. Yng Nghymru a Lloegr, os bydd y deiliad AB58 yn cytuno, rhowch y gymeradwyaeth.

   Yn yr Alban anfonwch yr argymhelliad at Lywodraeth yr Alban i roi'r gymeradwyaeth.
3. Yng Nghymru a Lloegr, anfonwch gopi i:
   - CSC One Health: CSCOneHealthABP@apha. gov. uk
   - Yr Awdurdod Lleol
   - Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru

   Yn yr Alban, anfonwch gopi at Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban

At ddefnydd swyddogol yn unig

Awdurdodiad Deiliad AB58

Sylwadau a dyddiad nodi ymlaen:

Llofnod Deiliad AB58:

Enw mewn priflythrennau:

Dyddiad:

Noder:

- Yng Nghymru a Lloegr, y deiliaid AB58 sy'n gyfrifol am ddiwygio cymeradwyaethau ac atal cymeradwyaethau. Gellir ymgynghori â'r Fforwm Gwybodaeth wrth lunio argymhelliad.
- Yn yr Alban, y weinyddiaeth ddatganoledig sy'n gyfrifol am ddiwygio ac atal cymeradwyaethau.Gellir ymgynghori â'r Rhwydwaith Cyflawni Gweithredol wrth lunio argymhelliad.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.